

CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Llandysul, ar 9fed Ionawr 2017

Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Llandysul Youth Centre, on 9th January 2017

Yn Bresennol/Present:

Cyng/Cllrs Tom Cowcher Beth Davies, Roy Davies, Keith Evans, Andrew Howell, Gethin Jones, Abby Reid a Chyng Sir/and County Cllr Peter Evans a/and Peter Davies

- 1 **Ymddiheuriadau/Apologies** Cafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr /Apologies for absence was received from Cllrs Eileen Curry, Terry Griffiths, Aled Jones, Carolyn Reed-Rees a/and Douglas Davies
- 2 **Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest** Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau / No declarations of interest was shown.
- 3 **Cofnodion/Minutes** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr yn gywir ac fe'u llofnodwyd ar ôl ychwanegu bod Cyng Sir Peter Evans yn bresennol ac ar ôl newid y geiriad ynghylch lloches bws dan Faterion Ward Capel Dewi / Minutes of monthly meeting held on 12th December was accepted as correct and signed once adding that County Cllr Peter Evans was present and changing bush shelter to bus shelter in the Capel Dewi Ward Matters.

Dymunodd y Cadeirydd, Cyng Beth Davies, Flwyddyn Newydd dda i bawb / Chairman Cllr Beth Davies wished all a happy New Year.

YMWELIAD / VISIT

Roedd Dr Julian Evans, cynrychiolydd Calonnau Cymru, yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn trafod diffibrilwyr a phwysigrwydd sicrhau eu bod wrth law ym mhob Cymuned. Pe byddai rhywun yn cael ataliad ar y galon, esboniodd y byddai gennych chi 4 munud i sicrhau bod y diffibriliwr yn cyrraedd y claf ac yna, byddai'r gyfradd lwyddo yn 80%. Esboniodd y byddai'n costio tua £1324 a bod ffurflenni cais ar gael i gymunedau ar wefan Calonnau Cymru. Hysbysodd y cyngor hefyd o'r angen i gael cyllideb wrth gefn pe bai'n prynu'r rhain, gan bod batri y peiriannau hyn yn para 5-7 mlynedd. Dywedodd hefyd y byddai ar gael i roi hyfforddiant am ddim pe byddai'r Cyngor Cymuned neu unrhyw gymdeithasau yn prynu peiriant. Diolchodd y Cadeirydd i Dr Evans am yr holl wybodaeth ac am fynychu'r cyfarfod.

Dr Julian Evans a representative from Heart Wales was present at the meeting to discuss defibrillators and the importance of all Communities having them to hand. He explained that if someone had a cardiac arrest you'd have 4 minutes to get the defibrillators to the patient and there was an 80% success rate. He explained that the cost would be around £1324 and application forms are available to communities on the Heart Wales website. He also informed the council the need of having a contingency budget if purchasing them as that the battery life was 5-7 years on the machines. He also said that he would be available to give free training if the Community Council or any associations were to purchase a machine. The Chairman thanked Dr Evans for all the information and for attending the meeting.

Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu / PCSO

Esboniodd Shan Davies, PCSO, y byddai hi'n gorffen yn y gwaith tua canol mis Mawrth a'i bod yn gobeithio dychwelyd i Llandysul ar ôl blwyddyn. Esboniodd y byddai rhywun yn cymryd ei lle, ond nid oedd yn siŵr pwy ar hyn o bryd.

Roedd hi wedi bod yn dawel yn Llandysul dros y Nadolig, ond bu 1 achos fwrgleriaeth y tu ôl i far – a arweiniodd at arrestio unigolyn, a bu un Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol y tu allan i un o'r tafarndai.

Esboniodd bod y cynllun gwyliau Cyflymder Cymunedol yn chwilio am Wirfoddolwyr o hyd, cyn y byddai modd i'r cynllun gychwyn.

PCSO Shan Davies explained that she would be finishing her work mid March with the hope of returning to Llandysul after a year. She explained that there would be a replacement but was unsure of who at the moment.

It had been quiet in Llandysul over the Christmas period with 1 burglary behind a bar – which had resulted in an arrest and 1 asbo outside one of the public houses.

She explained that the Community Speed watch was still looking for Volunteers before the scheme could get underway.

4 Materion yn Codi:-

Addoldai Cymru Penderfynwyd y dylai'r clerc ysgrifennu atynt gan ofyn iddynt ailgyflwyno'u cais am arian.

Materion y mae gofyn gwneud Penderfyniad amdanynt

4) Ceisiadau Ariannol:-

Eisteddfod Llangollen Cafwyd ffurflen gais gan Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn gofyn am rodd o £100. Penderfynwyd cefnogi'r cais.

5) Materion i'w trafod

Sedd Wag Llandysul Cafwyd llythyr gan Gyng Terry Griffiths yn hysbysu'r Cyngor Cymuned o'i ymddeoliad o'r Cyngor o ganlyniad i salwch. Penderfynwyd y dylai'r clerc ysgrifennu llythyr ato yn diolch iddo am ei holl waith caled a'i ymroddiad. Gofynnwyd i'r cyngorwr feddwl am bobl y gallai fod ganddynt ddiddordeb mewn bod yn gynghorydd gan bod dwy sedd wag yn Llandysul nawr. Cytunwyd y byddai Abbey Reid yn cynnwys hysbysiad ar gyfryngau cymdeithasol yn gofyn i bobl fynegi diddordeb.

Materion Wardiau

Llandysul

Swyddfa Bost

Cafwyd llythyr ymgynghori ynghylch y cynnig i symud Swyddfa Bost Llandysul i siop Nisa Extra. Roedd y Cyngorwyr yn teimlo y byddai hyn yn mynd â busnes i ffwrdd o'r Stryd Fawr yn Llandysul a hefyd, i fwrrdd o Geredigion oherwydd y byddai'r safle newydd yn Sir Gaerfyrddin.

Penderfynwyd y dylai'r clerc ysgrifennu ymateb i Swyddfa'r Post yn nodi'r safbwytiau hyn, gan nodi hefyd bod y Swyddfa ariannol yn Llandysul yn wag, ac y dylent ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio honno fel safle newydd ar gyfer y Swyddfa Bost.

4 Matters Arising:-

Addoldai Cymru It was decided that the clerk write asking for them to re-submit their request for funding.

Matters Requiring Decisions

4) Funding Applications:-

Llangollen Eisteddfod an application from was received from Llangollen International Musical Eisteddfod asking for a nominal donation of £100 to. It was decided to support the request.

5) Matters for discussion

Llandysul Vacancy A letter was received from Cllr Terry Griffiths informing the Community Council of his retirement from the Council due to ill health. It was decided that the clerk write a letter thanking him for all his hard work and dedication.

Cllrs were asked to think of possible people that would be interested in becoming councillors as Llandysul now had two vacant posts. It was agreed that Abbey Reid put a notice on social media asking for interest.

Ward Matters

Llandysul

Post Office

A consultation letter had been received regarding the proposal of moving the Llandysul Post Office to Nisa Extra. The Councillors felt that this would take business away from the High Street in Llandysul and also away from Ceredigion as the new site would be in Carmarthenshire.

It was decided that the clerk write a response to the Post Office with these views and also point out that the cash Office in the Llandysul was vacant that they investigate the possibility of using that as the new Post Office.

It was also decided to write to MP Mark Williams, and AM Elin Jones to see if they could

Yn ogystal, penderfynwyd ysgrifennu at Mark Williams AS, ac Elin Jones AC i weld a fyddai modd iddyn nhw ein helpu yn hyn o beth.

Llyfrgell Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng Abbey Reid nad oedd unrhyw wres yn y llyfrgell ar hyn o bryd. Penderfynwyd y dylai'r cleric ysgrifennu at y Cyngor i ofyn iddynt ddatrys y mater cyn gynted ag y bo modd.

Plant y Dyffryn Roedd Cyng Roy Davies yn falch iawn o weld bod Plant y Dyffryn yn dymuno sicrhau safle Dyffryn Teifi ar gyfer pobl leol. Esboniodd Cyng Peter Evans y byddai'n rhaid i'r ceisiadau gael eu cyflwyno i'r Cyngor Sir erbyn 20/01/17. Esboniodd Cyng Roy Davies ei fod yn siomedig nad oedd y Cyngor Cymuned wedi bod yn rhan o unrhyw drafodaethau.

Capel Dewi – Esboniodd Cyng Tom Cowcher bod paneli PV Solar wedi cael eu gosod ar y Siop yng Nghapel Dewi erbyn hyn.

Praecept

Roedd y cleric wedi paratoi crynodeb o'r gwariant tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd peidio codi'r praecept. Bydd y cleric yn anfon ateb at y Cyngor Sir.

6) Cydnabod derbyn rhoddion

Dim

Gohebiaeth

Negeseuon e-bost – Cyflwynwyd rhestr o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y cleric ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 12 Rhagfyr ac 8 Ionawr 2017.

Cafwyd y canlynol gan

Geredigion – Cafwyd llythyr er gwybodaeth yn rhoi caniatâd i Mrs Eleri Davies Llannerch Prengwyn symud yr heb bwmp dŵr ym Mhren-gwyn.

ULIC/SLCC/ Clerks and Councils Direct – Cafwyd The Clerk Magazine a Clerk and Councils Direct.

Western Power Cafwyd Tystysgrif am Gysylltiad Heb ei Fesur Dros Dro ar gyfer y

help our plight.

Library Cllr Abbey Reid informed the meeting that currently there was no heating at the library. It was decided that the clerk write to the Council asking for them to rectify the problem as soon as possible.

Plant y Dyffryn Cllr Roy Davies was very impressed that Plant y Dyffryn wanted to secure the Dyffryn Teifi site for the locals. Cllr Peter Evans explained that the bids had to be in to the County Council by 20/01/17. Cllr Roy Davies explained his disappointment that the Community Council had not been involved in any discussions.

Capel Dewi – Cllr Tom Cowcher explained that Solar PV panels had now been installed on the Siop in Capel Dewi.

Precept

The clerk had prepared a summary of expenditure until the end of the financial year. Following a discussion it was decided not to raise the precept. The clerk to reply to the County Council.

6) Acknowledge receipt of donation

None

Correspondence

Emails –A list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 12th December– 8th January 2017 was tabled.

The following were received from

Ceredigion – Letter received for information giving Mrs Eleri Davies Llannerch Prengwyn permission to move the old water pump in Prengwyn.

OVW/SLCC/ Clerks and Councils Direct – The Clerk Magazine and Clerk and Councils Direct was received.

Western Power Certificate for Temporary Unmetered Connection for Festive Lighting for Christmas 2016-17 was received and noted.

Mid and West Wales Fire and Rescue Service A letter was received asking if the Community

Goleuadau Nadolig yn 2016-17 ac fe'i nodwyd.

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolborth a

Gorllewin Cymru Cafwyd llythyr yn gofyn a oedd y Cyngor Cymuned yn dymuno parhau i gael ei gynnwys yn eu cronfa ddata.

Penderfynwyd y dylai'r clerc ateb trwy nodi ein bod yn dymuno cael gohebiaeth bellach ganddynt.

Y Rheolydd Pensiynau – Cafwyd llythyr gan y Rheolydd Pensiynau a bydd hwn yn cael ei drosglwyddo i Carolyn Reed Rees

Llywodraeth Cymru – Cafwyd llythyr yn hysbysu'r Cyngor o'r uchafswm o ran y gwariant dan Adran 137 ar gyfer 2017-18, sef £7.57 fesul etholwr.

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Gwahoddiad i ddigwyddiad trafodaeth bord gron Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a gynhelir yn Llanbedr Pont Steffan ar 2 Chwefror. Penderfynwyd y dylai'r clerc sganio copi ar gyfer Cyng Andrew Howell.

Ray Ceredigion – Anfonwyd llythyr yn gofyn am rodd, ac roedd y clerc wedi anfon ffurflen ymgeisio am grant atynt.

7 Cynllunio: Ni chafwyd unrhyw hysbysiadau cynllunio.

8) Gwybodaeth Ariannol

Anfonebau:-

Llinos Jones – Cafwyd anfoneb am y swm o £76.85 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Rhagfyr 2016 a derbyniwyd y dylid ei thalu.
Ieuencnid Tysul Youth – Cafwyd anfoneb am y swm o £275 am Logi'r Ganolfan Ieuencnid ar gyfer Cyfarfodydd y Cyngor a derbyniwyd y dylid ei thalu.

Derwen Lighting – Cafwyd anfoneb am y swm o £1522.16 am osod y garlant Nadolig ac am y bylbiau newydd, a derbyniwyd y dylid ei thalu.

Council wished to remain on their database. It was decided to that the clerk reply to say that we wished to receive further correspondence from them.

The Pension Regulator – Letter was received from the Pension Regulator and will be passed to Carolyn Reed Rees

Welsh Government – Letter was received informing the Community Council of Section 137 expenditure limit for 2017-18 this being £7.57 per elector.

Independent Remuneration Panel for Wales

Invitation to the Independent Remuneration Panel for Wales to a round table discussion event at Lampeter on the 2nd of February. It was decided that the clerk scan a copy to Cllr Andrew Howell.

Ray Ceredigion – Letter was sent asking for a donation, the clerk had sent a grant application form.

7 Planning: No planning notification was received.

8) Financial Information

Invoices:-

Llinos Jones – Invoice for December 2016 translation for £76.85 was received and passed for payment.

Ieuencnid Tysul Youth – Invoice for Hire of Youth Centre for Council Meetings was received for £275 and passed for payment.

Derwen Lighting – Invoice was received for installing the Christmas festoon and replacement bulbs £1522.16 and passed for payment.

;.

.;

